

Mark Drakeford AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

17 Chwefror 2026

Annwyl Peredur,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 23 Ionawr ac am graffu parhaus y pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cyllid (Rhif 2). Rwyf wedi nodi rhagor o wybodaeth mewn ymateb i'r pwyntiau penodol a rannwyd gennych.

Rwy'n croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor, hynny yw, er bod refeniw o incwm eiddo Cymru yn debygol o fod yn gymedrol, bod y pŵer i amrywio cyfraddau treth yn cynrychioli'r gwaith pwysig o gryfhau fframwaith cyllidol Cymru ac yn adlewyrchu'n briodol y cyfrifoldebau datganoledig.

Yn ystod 2023-24, roedd incwm eiddo yn cynrychioli oddeutu 1.6% o gyfanswm yr incwm di-ddifidend nad yw'n deillio o gynilion yng Nghymru (tua £800 miliwn). Pe bai incwm eiddo yn cynrychioli yr un gyfran o refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT), byddai wedi cyfrannu oddeutu £50 miliwn o WRIT yn y flwyddyn honno. Fodd bynnag, gan y bydd incwm eiddo yn cael ei gymryd ar ôl gweddill yr incwm di-ddifidend nad yw'n deillio o gynilion wrth gyfrif am lwfansau a throthwyon, mae ei gyfran o dreth yn debygol o fod ychydig yn uwch.

Bydd amcangyfrifon mwy amserol ar gael pan fydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyhoeddi ei Ragolygon Economaidd a Chyllidol nesaf ar 3 Mawrth 2026. Bydd hyn yn cynnwys rhagolygon ar wahân ar gyfer refeniw WRIT o incwm eiddo a gweddill yr incwm di-ddifidend nad yw'n deillio o gynilion. Bydd hyn yn cyfrannu at gryfhau'r sylfaen ddadansoddol sy'n sail i benderfyniadau ynghylch gosod cyfraddau.

Unwaith y caiff y pŵer ei ddatganoli, rwy'n disgwyl y bydd iteriadau Canllaw Cyflym yr WRIT yn y dyfodol hefyd yn ymgorffori modelu ar wahân ar gyfer refeniw o incwm eiddo. Bydd hyn yn caniatáu amcangyfrifon cliriach o ran effeithiau refeniw yn sgil newidiadau i gyfraddau yng Nghymru yn y dyfodol.

Rwy'n cydnabod diddordeb y Pwyllgor o ran a allai cyfraddau treth incwm uwch ysgogi ymgorffori. Er bod ymgorffori yn un ymateb ymddygiadol posibl i newidiadau mewn cyfraddau treth incwm ar incwm eiddo, mae'r penderfyniad yn llawer iawn mwy cymhleth na symud eiddo presennol i strwythur corfforaethol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gall trosglwyddo portffolios eiddo presennol i gwmni sbarduno Treth Trafodiadau Tir (neu drethi cyfatebol mewn mannau eraill) a rhwymedigaethau enillion cyfalaf, gan wneud ymgorffori, yn aml, yn afresymol o gostus. Am y rheswm hwn, mae effeithiau ymddygiadol yn fwy tebygol o ymwneud â sut y caiff eiddo yn y dyfodol ei gaffael yn hytrach nag ailstrwythuro daliadau presennol ar raddfa fawr. Fodd bynnag, rhaid cydnabod y bydd penderfyniadau pawb yn dibynnu ar ffeithiau penodol.

Mae'n werth nodi hefyd, os gosodir cyfradd Cymru ar 10 ceiniog yn y bunt, yn yr un modd â gweddill yr incwm di-ddifidend nad yw'n deillio o gynilion, y bydd trethdalwyr Cymru yn wynebu'r un gyfradd dreth gyffredinol ar incwm eiddo â threthdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae adran 116D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006') yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer pennu cyfraddau treth incwm eiddo Cymru gan y Senedd. Mae Deddf 2006 yn cydnabod y gall pennu cyfraddau Cymru osod un neu ragor o gyfraddau ac felly byddai'n bosibl, pe bai hynny'n cael ei ffafrio, i gyfraddau eiddo Cymru gael eu pennu drwy benderfyniad ar wahân.

Bydd angen felly i Bwyllgor Busnes y Senedd ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol i Reolau Sefydlog maes o law. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith hwn, gan gynnwys ystyried a yw penderfyniad(au) sengl neu benderfyniad(au) ar wahân yn briodol.

Yn ogystal, trafododd y Pwyllgor y pwerau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru gyflwyno bandiau treth gyngor gwerth uchel, gan fanteisio ar gyhoeddiadau diweddar a wnaed yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw pwerau llawn a hyblyg i ychwanegu bandiau gwerth uchel at y system dreth gyngor bresennol yng Nghymru. Darperir y pwerau gan [adran 5](#) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Yn wir, ar gyfer ailbrisio nesaf y dreth gyngor yn 2028, a sicrhawyd drwy basio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, mae'r posibiliadau'n cynnwys creu rhagor o fandiau gwerth uchel yn seiliedig ar ddata wedi'i ailbrisio a'i ddiweddarau. Mae'r ymarfer prisio ar y gweill, a mater i'r llywodraeth nesaf fydd cadarnhau y dyluniad a ffefrir ganddi. O gymharu â gwledydd eraill, mae gan Gymru fand gwerth uchel ychwanegol eisoes, sef band I.

Mae'n bosibl y bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn nodi bod Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cyhoeddi yn ddiweddar gynnig i ychwanegu dau fand gwerth uchel newydd at ei system dreth gyngor bresennol yn 2028. Mae hyn yn dangos yr hyblygrwydd sydd ar gael i lywodraethau datganoledig ddylunio strwythurau trethi lleol.

Yn gywir



Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language